COFNODION O GYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG PWNC A CHRAFFU 1 A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB,DDYDD LLUN, 16 MEDI 2024 AM 11:00

Yn Bresennol yn Rhithiol

Cadeirydd (ar gyfer y cyfarfod): A J Williams

| | | | |
|---|---|---|---|
| J P D Blundell | H J David | D M Hughes | I M Spiller |
| T Thomas | E Winstanley | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins, J Llewellyn-Hopkins ac A Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Nicola Echanis | Pennaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Mark Lewis | Rheolwr Grŵp, Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant |
| Sarah Roberts | Rheolwr Grŵp, Ysgolion |
| Robin Davies | Rheolwr Grŵp, Strategaeth, Perfformiad a Chefnogaeth |
| Stephanie Thomas | Rheolwr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant |
| Owen Shepherd | Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Ieuenctid |

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |

Gwahoddedigion / Cynrychiolwyr Cofrestredig

| | |
|---|---|
| Kathryn John | Pennaeth, Ysgol Gynradd Bracla a Chadeirydd y Ffederasiwn Ysgolion Cynradd |
| Neil Pryce | Pennaeth, Ysgol Gynradd y Pîl |
| Ryan Davies | Pennaeth, Ysgol Gyfun Brynteg |
| Samantha Lambert-Worgan | Cynrychiolydd Cofrestredig - Rhiant Lywodraethwr Ysgol Arbennig |

Datganiadau o Fuddiant

Y Cynghorydd Jon-Paul Blundell – Rhagfarnol- Eitem 4, Cyfranogiad yn y Cynllun Strategol Cyfarwyddiaeth Pobl Ifanc 2023-26 y llynedd
Y Cynghorydd Elaine Winstanley - Personol - Eitem 7, Cyflogwr Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, y sonir amdano yn yr adroddiad gwybodaeth
Y Cynghorydd Huw David - Rhagfarn - Eitem 4, Aelod o’r Cabinet ar yr adeg y cafodd y Cynllun Strategol ei dderbyn a’i arnodi

## 52. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg Pwnc a Chraffu 1 a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2024 fel rhai gwir a chywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Medi 2024 |

## 53. Diweddariad Cynllun Strategol Cyfarwyddiaeth Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc 2024-2026

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Ar ôl ystyried yr adroddiad a'r drafodaeth fanwl a gafwyd gydag Aelodau o'r Cabinet ac Uwch Swyddogion, gwnaed y sylwadau a'r argymhellion canlynol gan y Pwyllgor:<br><br>**T1: Llesiant disgyblion a staff**<br><br>1. Mynegodd aelodau bryder am staff Cymorth Dysgu yn gadael ysgolion i gyflogaeth mewn sectorau eraill, o bosib i ennill mwy o arian ac i swyddi mwy hyblyg neu hybrid. Roedd y trafodaethau gyda Phenaethiaid Gwadd yn cynnwys: |

| | |
|---|---|
| | - Colli staff ar adegau allweddol gyda phedair wythnos o rybudd:<br>- Yr amser a gymerodd y broses recriwtio:<br>- Mae lleihad sylweddol yn ansawdd a nifer y ceisiadau am swyddi gwag o'r fath yn creu her i ysgolion.<br><br>**Yn dilyn trafodaethau a phryderon a gyflwynwyd ynghylch effaith heriol yr uchod ar ysgolion, argymhellodd y Pwyllgor i'r sefyllfa gael ei monitro a'i chadw dan adolygiad i ddarparu sicrwydd.**<br><br>**T2 Cefnogaeth ar gyfer ymddygiad, presenoldeb a gwaharddiadau disgyblion**<br><br>2. Gofynnodd aelodau beth oedd yn cael ei wneud i gynyddu nifer y lleoedd yn yr Uned Atgyfeirio Disgyblion yn Narpariaeth Amgen y Bont ac yn Ysgol Heronsbridge, oherwydd roedd pryder ynghylch nifer y plant oedd yn cael eu gosod mewn ysgolion eraill, nad oedd yr amgylchedd mwyaf addas iddynt o bosib. Ymatebodd Swyddogion drwy roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod llawer o waith wedi'i gynnal i adolygu'r ddarpariaeth a oedd ar gael. Roedd Heronsbridge wedi bod dros ei niferoedd ers cryn amser ac roedd cynlluniau i edrych ar y posibilrwydd o adeilad a oedd ar gael a allai o bosib gael ei ddefnyddio ar gyfer ystafelloedd dosbarth ychwanegol, yn dibynnu ar y grantiau sydd ar gael a chan ystyried unrhyw oblygiadau ariannol i'r ysgol. Dros y tymor nesaf byddai cynllun tymor hirach yn cael ei ddatblygu gyda'r nod o ddatblygu anghenion a galw cynyddol yn y gwasanaeth.<br><br>**Roedd y Pwyllgor yn teimlo ei bod yn bwysig sicrhau bod popeth yn cael ei archwilio i ehangu darpariaeth yn yr ysgolion arbennig ac argymhellodd i'r cynllun tymor hwy ar gyfer niferoedd yn cael ei adrodd mewn cyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol, ac yn cael ei ychwanegu at y Flaenraglen Waith.**<br><br>**T11: Cynnig gofal plant a blynyddoedd cynnar effeithiol**<br><br>3. Cyfeiriodd aelodau at y cynnig a wnaed fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2024-25 yn ymwneud â thynnu darpariaeth meithrinfa o ysgolion cynradd a gofynnodd pa gynnydd oedd wedi bod yng nghyd-destun sicrhau bod digon o ddarpariaethau gofal plant. Cynghorodd swyddogion i asesiad digonolrwydd gofal plant llawn gael ei gynnal i edrych ar y galw posib am ofal plant cyn ystyried darpariaeth |

| | |
|---|---|
| | meithrinfa. Byddai'r wybodaeth honno'n cael ei chaglu yn ystod y 6-8 wythnos nesaf ac yn rhoi'r cyfle i bobl ddweud eu dweud, a chasglu'r wybodaeth orau bosib, cyn ystyried gwneud penderfyniad yn y dyfodol. Cyn cyflwyno adroddiad ymgynghori, byddai cynllun ar gyfer unrhyw ddiffygion mewn lleoliadau gofal plant yn cael ei baratoi.<br><br>**Argymhellodd y Pwyllgor fod adroddiad pellach yn cael ei ddarparu i SOSC 1 ar ddeilliant adolygiad digonolrwydd lleoliadau gofal plant, cyn i'r Cabinet ystyried darpariaeth Meithrinfa.**<br><br>**<u>Gwybodaeth ychwanegol:</u>**<br><br>Ar ôl ystyriaeth fanwl a thrafodaethau gyda Swyddogion ac Aelodau'r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor y ceisiadau canlynol am ragor o wybodaeth:<br><br>**T1: Llesiant disgyblion a staff**<br><br>4. Cododd aelodau mater tynnu'r diweddariadau balans ar gyfer cyfrifon cinio ysgol mewn Ysgolion Uwchradd, a dim crynodeb o'r hyn y cafodd yr arian a roddwyd i gyfrifon y disgyblion ei wario arno mwyach, a oedd yn bwysig i helpu rhieni i gefnogi eu plant i wneud penderfyniadau maethlon gwybodus.<br><br>Cynghorodd Swyddogion fod cyflwyniad y Prydau Ysgol Gynradd am Ddim Cynhwysol wedi golygu newid sylfaenol i'r systemau ac wedi galluogi system adrodd i Lywodraeth Cymru. Er y byddai'r system gyfredol yn parhau, roedd gan ysgolion yr opsiwn o fuddsoddi mewn systemau fel 'pay parent', y gellid ei gysylltu â'u systemau ariannol corfforaethol, ac roedd ysgolion yn gwneud cynnydd o ran buddsoddi mewn 'unedau/peiriannau ailbrisio' a gellir darparu diweddariad ysgrifenedig ar gynnydd ar draws y naw ysgol uwchradd.<br><br>**Yn dilyn trafodaeth, gwnaeth y Pwyllgor gais i ddiweddariad ysgrifenedig ar gynnydd ar draws yr ysgolion cynradd gael ei ddarparu i Aelodau'r Pwyllgor.** |

| | |
|---|---|
| | **T8: Gweithdrefnau diogelu cadarn ar draws holl feysydd gwasanaeth y gyfarwyddiaeth.**<br>5. Cyfeiriodd Aelodau at Ysgolion ar draws Cymru a'r DU yn ymgymryd ag asesiadau risg cyfnod clo i arddangos sut y maent yn diogelu staff a disgyblion rhag bygythiadau diogelwch, a gofynnwyd beth oedd y cynlluniau am weithdrefnau cymesur a chall. Cynghorodd Swyddogion eu bod wedi gweithio'n agos gydag ysgolion dros nifer o flynyddoedd ar weithdrefnau argyfwng, ac adfywiwyd y rhain yr haf diwethaf, gan weithio'n agos gyda'r Tîm Cynllunio Argyfwng a'r Uned Iechyd a Diogelwch. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynhyrchu canllawiau, ac mae Polisi'r Awdurdod wedi'i fabwysiadu yn unol â'r rhain.<br><br>**Cytunodd y Pwyllgor ar bwysigrwydd sicrhau bod y gweithdrefnau mor gadarn â phosib a chroesawyd unrhyw adborth o arolygon Estyn ynghylch y gweithdrefnau hynny ar ôl iddynt fod ar waith.**<br><br>**T5: Cwricwlwm i Gymru ac asesiad**<br>6. Roedd y Pwyllgor yn falch o weld y Cwricwlwm newydd i Gymru yn cael ei rannu'n llwyddiannus ar draws y Fwrdeistref a gofynnwyd, o ystyried bod y ffocws yn sicr ar ddysgu ymarferol a mynediad at chwarae, sut oedd yr Awdurdod yn sicrhau bod ysgolion wedi'u paratoi'n ddigonol i allu darparu'r cwricwlwm newydd. Eglurodd Swyddogion bod nifer sylweddol o fuddsoddiadau i ysgolion newydd ac i uwchraddio ysgolion ar draws yr awdurdod lleol, yn ogystal gwnaethant weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar y grant ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned a'r grant cynnal a chadw, gan ddefnyddio'r rheiny lle bynnag y bo hynny'n bosibl i wneud yr amgylchedd dysgu yn fwy hygyrch a chyffrous i ddysgwyr.<br><br>Ymholodd aelodau sut yr oedd y cyllid grant yn cael ei ddyrannu rhwng yr ysgolion. Ymateb Swyddogion oedd fod cyfanswm ffigwr y grantiau ysgolion sy'n canolbwyntio ar y Gymuned a'r grant cynnal a chadw yn cael ei reoli gan y Gyfarwyddiaeth Cymunedau a gellid darparu ffigyrau dyraniad i Aelodau'r Pwyllgor.<br><br>**Yn dilyn y trafodaethau, gofynnodd y Pwyllgor i amlygiad o ddyraniad y Grant Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned a'r Grant Cynnal a Chadwgael ei ddarparu i Aelodau o'r Pwyllgor.** |

| | |
|---|---|
| | **Cyffredinol**<br>**7. Croesawodd y Pwyllgor yr awgrym i Gynllun Strategol y Gyfarwyddiaeth gael ei adrodd i Bwyllgor Trosolwg Pwnc a Phwyllgor Craffu 1 yn flynyddol i elwa o fonitro parhaus y Pwyllgor, a gwnaeth gais iddo gael ei ychwanegu i'r Flaenraglen Waith ar gyfer y flwyddyn ganlynol.** |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Medi 2024 |

**54. Ymateb y Cabinet i Argymhellion y Pwyllgor ar Ganlyniad yr Ymgynghoriad Teithio Dysgwyr**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Swyddog Craffu yr adroddiad, a'i ddiben oedd cyflwyno ymateb y Cabinet i'r Argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor ar yr Ymgynghoriad Teithio Dysgwyr ar 18 Gorffennaf 2024 i'r Pwyllgor.<br><br>Wedi ystyried yr ymateb,<br><br>PENDERFYNWYD: Nododd Y Pwyllgor ymateb y Cabinet i argymhellion y pwyllgor a wnaed ar yr adroddiad Ymgynghoriad Teithio Dysgwyr. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Medi 2024 |

**55. Adroddiad Gwybodaeth - Perfformiad Chwarter 4 2023/24**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cydnabod cyhoeddi'r adroddiad gwybodaeth ar Berfformiad Chwarter 4 2023-2024. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Medi 2024 |

**56. Diweddariad ar y Flaenraglen Waith**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith (FWP) yn Atodiad A, yn |

| | |
|---|---|
| | amodol ar gynnwys yr eitemau isod, nodwyd y Daflen Camau Gweithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B a nodwyd y byddai adroddiad ar yr FWP, y Daflen Camau Gweithredu Monitro Argymhellion ac unrhyw ddiweddariadau gan y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu, ar ôl ystyriaeth yn y cylch hwn o Gyfarfodydd Pwyllgor.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor i'r canlynol gael ei gynnwys yn y FWP:<br><br>8. Gofynnodd Aelodau a allai Swyddogion sicrhau bod y canlynol yn cael gwahoddiad pan fydd Presenoldeb, Ymddygiad a Gwaharddiadau wedi'u trefnu i'w trafod yn y Pwyllgor:<br>- Prifathrawon ysgolion uwchradd gan fod y prif waharddiadau yn dod o ysgolion uwchradd.<br>- Gwahoddiad i'w anfon i Ysgol Bryn Castell fel ysgol sy'n darparu addysg i ddisgyblion gydag Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol cymhleth (BESD).<br>- Aelod o fewn y tîm darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n delio'n benodol gyda phlant gydag anawsterau ymddygiadol, ac yn eu cefnogi. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Medi 2024 |

## 57. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Dim |
| Dyddiad y Penderfyniad | 16 Medi 2024 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon ar gyfer Rhan Un a'r ddolen hon ar gyfer Rhan Dau.

Daeth y cyfarfod i ben am 14:09.

**PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 1 - DYDD LLUN, 16 MEDI 2024**